# BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

**CYFNOD: 1 MAWRTH 2019 - 30 MEHEFIN 2019**

**CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN CYFARFODYDD CABINET**

**Cysylltwch â'r Swyddfa Cefnogi'r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth**

| Teitl yr Adroddiad | Crynodeb o’r Materion a’r Argymhelliad Arfaethedig | Statws goleuadau traffig craffu | Ymgynghoreion | Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|

**Mawrth 2019**

**Diwylliant a Hamdden**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gorchmynion diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn | Mae newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu bod angen i’r Cyngor gael Datganiad Polisi ynghylch defnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Mae’r ddeddfwriaeth newydd hon yn cefnogi ehangu pwerau gorfodi i ddileu ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn cyflawni amgylchedd diogelach, glanach a mwy cynaliadwy ledled Caerdydd. | Amber/Ambr | | Cabinet |

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CTY: Darpariaeth Ysgol newydd i wasanaethu rhannau o Bontprennau a Phentref Llaneirwg | I ystyried sefydlu ysgol gynradd newydd mewn adeiladau newydd ar ddatblygiad tai St Edeyrn ym Mhontprennau a Phentref Llaneirwg | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2020/21 | Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau Ysgol a Fframwaith 1998 a Rheoliadau Addysg (Pennu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2016 mae gofyn i’r Cyngor adolygu’r Polisi Derbyn i Ysgolion blynyddol. Rhaid pennu’r Trefniadau Derbyn i Ysgolion i’w gweithredu ym mis Medi 2020. | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Cynllun Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth | Sicrhau bod aelodau’n cael gwybodaeth lawn am yr ateb strategol ehangach a gynigir ar gyfer trefnu llefydd cynradd i wasanaethu | Amber/Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| llefydd Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn Ardal Llanrhymni | Llanrhymni, rhannau o Bontprennau a Phentref Llaneirwg, yn cynnwys:<br>• digon o lefydd;<br>• sut y caiff canlyniadau eu gwella ar gyfer disgyblion;<br>• nodau buddsoddi ar gyfer yr ardal i fanteisio teuluoedd â phlant ifainc yn y gymuned. | | | |
| Cyllid Banc B Ysgolion yr 21ain Ganrif | Mae'r adroddiad yn nodi manylion y ddau fodel cyllido sydd ar gael ar gyfer y rhaglen – Modelau Buddsoddi Cyfalaf a Chilyddol (MIM). Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau manylion y cyfraddau ymyrryd ar gyfer pob opsiwn ariannu. Mae'r cyfraddau ar gyfer y ddau fodel yn wahanol i'r rhai ar yr adeg cyflwyno a byddai'r newid hwn yn effeithio ar raglen Caerdydd. O ystyried y cyfraddau ymyrryd diwygiedig, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol ailystyried eu sefyllfa o ran cynlluniau a gyflwynir drwy MIM. | Amber/Amb r | | Cabinet |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Lletya Pobl Hŷn 2018 - 2023 | Mae'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn hon yn gosod sut bydd y Cyngor a phartneriaid yn llywio ac yn cyflawni gwasanaethau tai a chysylltiedig i bobl hŷn, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i fynd ar ôl blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. | Amber/Amb r | Ymgynghoriad preswyl cychwynnol a bore coffi yn Brentwood Court; Clos Y Nant; Minton Court; Tŷ Popular a Thŷ Nelson, mewn perthynas â gwaith gwella sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol i | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | ddod. Mae manyleb fanwl ar gyfer pob Cynllun Byw Cymunedol wedi'i datblygu i sicrhau cysondeb | |
| Cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 | Y materion a drafodir yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yw:<br>• nodi diben neu genhadaeth yr awdurdod fel landlord tai cymdeithasol;<br>• nodi amcanion a safonau ar gyfer y gwasanaeth;<br>• cynllunio sut i gyflawni'r amcanion a'r safonau a nodir (y strategaethau);<br>• cynllunio gofynion o ran adnoddau ac arian;<br>• darparu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd y ' busnes ' tai;<br>cyfleu cynlluniau'r awdurdod i'w denantiaid, Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol eraill, partneriaid a'r gymuned ehangach. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Datganiad Polisi Tâl 2019/20 | Mae gan y Cyngor hefyd ofyniad statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi tâl yn flynyddol. Roedd y datganiad cyntaf yn ei le erbyn 31 Mawrth 2012 ac maent wedi'u cynhyrchu | | | Cabinet<br>Cyngor |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | bob blwyddyn ers hynny. Bydd cytundeb (a chyhoeddi wedyn) y 2019/20 datganiad polisi cyflog blynyddol hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth hon. | | | |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Astudiaeth Ddichonolrwydd Aer Glân - Cynllun Dros Dro - Amlinellu Achos Busnes | Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r asesiad manwl o'r rhestr fer o fesurau i gydymffurfio â gwerth terfynol NO2 yn yr amser byrraf posibl fel sy'n ofynnol yn ôl y cyfarwyddiadau cyfreithiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a chyflwyno opsiwn dewisol i'r Cyngor. | Amber/Amb r | Bydd gwaith ymgysylltu 6 wythnos yn cael ei gynnal ar yr opsiynau dewisol ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet. | Cabinet |
| Polisi Apeliadau Dirwyon Parcio | Mae'r ddogfen yn nodi ein canllawiau ar ystyried heriau, cynrychioliadau ac apeliadau yn erbyn cyhoeddi hysbysiadau tâl cosb yn ogystal â phenderfynu ar brosesau gorfodi i'w dilyn er mwyn sicrhau cysondeb ac ymlyniad i'r ddeddfwriaeth bresennol. | Amber/Amb r | | Cabinet |
| Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Papur Gwyn o'r enw Trafnidiaeth Cyhoeddus Gwell, gan drafod opsiynau posibl i wella gwasanaethau bws yng Nghymru gan gynnwys sefydlu un neu fwy o Awdurdodau Trafnidiaeth ar y cyd i gynnal swyddogaethau cynllunio trafnidiaeth sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol, gan alluogi Awdurdodau Lleol i sefydlu cwmnïau bws lleol, a newid deddfwriaeth er mwyn masnachfreinio gwasanaethau bws lleol. Mae'r papur hefyd yn trafod cynigion i osod holl safonau Cymru ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat ac i ehangu pwerau | Amber/Amb r | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Awdurdodau Trwyddedu i drafod bob cerbyd sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod, p'un a ydynt wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod hwnnw ai peidio.<br>Yn ogystal, cynigir newidiadau i'r cynllun Ffioedd Consesiynol Cymru Gyfan a chymhwysedd y cynllun Pobl Ifanc.<br><br>Mae'r adroddiad yn trafod ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn. | | | |

**Ebrill 2019**

**Plant a Theuluoedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Breswyl y Gwasanaethau Plant | Gweledigaeth y Cyngor yw agor cartrefi plant newydd yn y ddinas, fel y gall gael mynediad at y math a'r lefel cymorth cywir a sicrhau bod plant Caerdydd yn byw yng Nghaerdydd. Y weledigaeth yw agor pump cartref plant newydd yng Nghaerdydd erbyn mis Rhagfyr 2019.<br><br>Gofynnir i'r Cabinet i ystyried a chytuno ar y cynnig cyffredinol i gyflawni'r weledigaeth ac i awdurdodi'r gwaith o gaffael cam cyntaf y datblygiad hwn, sydd â'r nod o gynnig cam hanfodol i bobl ifanc yng Nghaerdydd i aros neu i ddychwelyd at eu teuluoedd a'u ffrindiau, tra'n dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dyfodol llwyddiannus. | Amber/Amb<br>r | | Cabinet |

**Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Fwyd | Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Fwyd i'r Cyngor. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd ledled y ddinas ar yr agenda bwyd a statws presennol Caerdydd fel Dinas Fwyd Gynaliadwy Efydd. Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn gweithio at gael statws Arian ac mae ganddi nod o geisio bod yn ddinas Aur | | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | yn y tymor canolig. Bydd strategaeth y Cyngor yn ystyried mynediad at fwyd da i bawb, bwyd fel gyrrwr llwyddiant, manteisio ar dyfu'n lleol a systemau bwyd clyfar.. | | | |

**Diwylliant a Hamdden**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Meysydd Canmlwyddiant | Yng nghyfarfod y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2018, penderfynwyd cymeradwyo cyflwyno Gerddi Grange a Gerddi Alexandra dan fenter Caeau'r Canmlwyddiant, a chyda hyrwyddo gan Fields In Trust, yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac aelodau'r ward leol.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cymeradwyodd y Cabinet yr hysbyseb ar gyfer gwerthu dau safle yn unol â'r adran berthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhoddwyd yr hysbyseb yn y Western Mail ar 8 Chwefror 2019 a rhoddwyd rhai hefyd mewn mannau amlwg yn y ddau safle. | Green/Gywrdd | | Cabinet |
| Strategaeth Gerddoriaeth | Comisiynwyd y project i helpu i ddatblygu strategaeth i ddiogelu a chefnogi rôl cerddoriaeth fel rhan o agenda adfywio Caerdydd. | | | Cabinet |
| Y Theatr Newydd | Nodi prif bwyntiau dull newydd o weithredu'r Theatr Newydd. | | | Cabinet |

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Ymhlith y blaenoriaethau mae cynnig i Ysgol Uwchradd Willows gael ei ail-adeiladu a'i ehangu i gynnig ysgolion | Amber/Ambr | Byddwn yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | uwchradd 11-16 newydd gydag wyth dosbarth mynediad. Mae’r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig hwn. | | Aelodau, Llywodraethwyr, Penaethiaid, staff ysgol, rhieni, plant a phreswylwyr lleol yn rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus. | |

**Tai a Chymunedau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb i adroddiad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Chymuneda ac Oedolion o'r enw Atal Pobl Ifanc rhag Ymgymryd â Delio Cyffuriau | Ymateb i argymhellion yr adroddiad Craffu | | | Cabinet |
| Strategaeth i ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd | Mae'r Cyngor wedi gosod targed o ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd, ohonynt mae'n rhaid darparu 1,000 erbyn mai 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r strategaeth ar gyfer cyflawni'r targed, yn nodi'r llwybrau cyflawni, yn rhoi manylion y dyraniadau tir sydd eu hangen ac yn nodi ' protocol tai ' gyda stadau er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd tir yn cael eu colli. | Green/Gwyrdd | | Cabinet |
| Strategaeth | Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad ‘Adeiladau Cymunedau Gwydn | Amber/Amb | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Llyfrgelloedd Cyngor Caerdydd - cyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | Trwy Ddatblygiad Pellach Hybiau Cymunedol' ym mis Mai 2018.<br><br>Yn yr adroddiad, cynigwyd dull newydd o ddarparu gwasanaethau llyfrgell, yn adeiladu ar arfer gorau ac i gyflwyno gwasanaethau llyfrgell o safon a digwyddiadau ledled y ddinas.<br><br>Bydd y strategaeth hon yn dangos sut bydd Cyngor Caerdydd yn bodloni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac yn adeiladu ar y prif themâu a grybwyllir yn yr adroddiad hwnnw, yn cynnwys:<br><br>• Darparu a rheoli llyfrau'<br>• Treftadaeth, diwylliant a gwybodaeth;<br>• Llythrennedd plant a chymorth â'r cwricwlwm;<br>• Creadigrwydd digidol;<br>• Ymgysylltu â'r gymuned a lles. | r | | |

**Buddsoddi a Datblygu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Adolygu Asedau Eiddo / Cynllun Gwaredu Tymor Canolig | Gweithredu'r cynllun gwaredu tymor canolig a pharhau â'r adolygiad a'r dull rhagweithiol o ran rheoli asedau'r Cyngor. | Green/Gwyr dd | | Cabinet |
| Papur Gwyn Economaidd | Ystyried y Papur Gwyn Economaidd | | | Cabinet |
| Ffordd Dumballs | Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno uwchgynllun newydd ar gyfer Dumballs Road a chreu tai fforddiadwy Cyngor Caerdydd. | Amber/Amb r | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb i Adroddiad Craffu ar Economi a Diwylliant o'r enw 'Gweithdai'r Cyngor a Safleoedd Arloesi' | Ymateb i argymhellion yr adroddiad Craffu | Green/Gwyrdd | | Cabinet |

**Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu | Ystyried Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu | | | Cabinet |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Gosod goleuadau strydoedd preswyl LED trwy'r ddinas a datblygu seilwaith SMART | Mae cyflawniad goleuadau stryd LED ar y rhwydwaith ffyrdd strategol wedi llwyddo i gefnogi lleihad mewn defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd.<br><br>Mae peilot preswyl yn Radur yn dangos bod pryderon ynghylch goleuadau stryd LED mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Mae datblygu goleuadau stryd LED preswyl ‘buddsoddi i arbed’ yn rhoi cyfleoedd pellach i leihau defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd.<br><br>Bydd cysylltu goleuadau stryd LED i System Reoli Canolog yn galluogi gweithrediad seilwaith SMART. Bydd yr adroddiad yn | Amber/Ambr | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | adnabod y buddion a’r cyfleoedd sy’n gysylltiedig â seilwaith SMART i brojectau i’r dyfodol. | | | |

**Mai 2019**

**Buddsoddi a Datblygu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd newydd | Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd. | Amber/Amb r | | Cabinet |
| Prif Gynlllun Ardal y Gamlas | Uwchgynllun newydd ar gyfer datblygu Ardal y Gamlas yng nghanol y ddinas yn y dyfodol i ddenu buddsoddiad ac ehangu cynnig masnachol canol y ddinas. | Amber/Amb r | | Cabinet |
| Arena Dan Do | Er mwyn gwthio cynllun yr Arena Dan Do yn ei flaen, mae angen cymeradwyaeth i gael y budd tir priodol y gefnogi’r datblygiad. | Amber/Amb r | | Cabinet |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Awyr Glân | Datblygu Papur Gwyn ddrafft a gaiff ei lywio gan yr ymgynghoriad helaeth ar y Papur Gwyrdd ar drafnidiaeth ac aer glân a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2018. Bydd y Papur Gwyn yn cynnig gweledigaeth hirdymor ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth y ddinas, gan gydweddu'n agos â'r rhaglen waith awyr lân barhaus y mae'r Cyngor yn ei rhoi ar waith gyda Llywodraeth Cymru. | Amber/Amb r | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Project Trafnidiaeth Gorllewin Canol y Ddinas | Mae datblygiad y Sgwâr Canolog ac agoriad y Gyfnewidfa Trafnidiaeth yn y dyfodol yn gofyn am addasiadau i'r rhwydwaith priffyrdd cyfagos. Mae'r addasiadau hyn yn allweddol i lwyddiant y Gyfnewidfa, symudiad diogel cerddwyr yn yr ardal a gosod rhwydwaith beicio ar wahân.<br><br>Mae Heol y Porth yn ardal rheoli ansawdd aer ar hyn o bryd. Bydd y prosiect trafnidiaeth hwn yn cael gwared ar draffig trwodd ac yn gwella ansawdd aer yn sylweddol<br><br>Mae angen trwsio a gwella'r arwynebau priffyrdd, yr isadeileddau a'r palmentydd yn yr ardal. Bydd y prosiect yn darparu atgyweiriadau, a'r gwelliannau sydd eu hangen i gysylltu â'r ardaloedd datblygu a'r stadiwm genedlaethol | Amber/Amb r | | Cabinet |

**Mehefin 2019**

**Plant a Theuluoedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun strategol i ddarparu canlyniadau ardderchog ar gyfer ein holl blant | Bydd yr adroddiad hwn yn nodi cynllun strategol 3 blynedd i ddarparu canlyniadau rhagorol mewn gwasanaethau plant. Bydd yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu dulliau atal, yn gwella arferion, yn cefnogi ac yn datblygu'r gweithlu, yn gwella'r ystod o wasanaethau a gynigir ac yn gwella perfformiad. | Amber/Amb r | | Cabinet |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2018/19 | Mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y bôn, mae'r adroddiad yn ofyniad ar awdurdodau, aelodau a swyddogion i roi gwybod i ddinasyddion a rhanddeiliaid lleol sut maent yn meddwl y mae eu trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gweithio. | Green/Gwyr dd | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddi a Datblygu** | | | | |
| Pentref Chwaraeon | Bydd yr adroddiad yn rhoi briff i'r Cabinet ar gynnydd Datblygiad y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol a'r model darparu a gynigir ar gyfer cam 2 datblygiad y safle. | Amber/Ambr | | Cabinet |
| Swyddfeydd Craidd | Cymeradwyo'r cynllun busnes a gynigir ar gyfer ad-drefnu swyddfeydd craidd y Cyngor. | Amber/Ambr | | Cabinet |
| **Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant** | | | | |
| Cynllun Strategol i Ddarparu Canlyniadau Rhagorol ar gyfer Oedolion | Bydd y papur hwn yn gynllun strategol 3 blynedd i ddod â chanlyniadau ardderchog yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Bydd yn nodi sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu camau ataliol, gwella ymarfer, cynorthwyo a datblygu'r gweithlu, gwella ystod y cynigion gwasanaeth a gwella perfformiad. | Amber/Ambr | | Cabinet |